# LC1385

APS.gif (5890 bytes)

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Arolygu'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Gwasanaethau Cysylltiedig (Cymru) 2006

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer arolygiad o'r gwasanaeth gyrfaoedd a gwasanaethau cysylltiedig gan y Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Caiff y Rheoliadau eu gwneud o dan Ddeddf Addysg 2005 ac mae'r drefn a amlinellir ynddynt yn disodli'r drefn bresennol sy'n gweithredu o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae rheoliad 2 yn diffinio'r termau a ddefnyddir yn y Rheoliadau. Mae'r testun Saesneg yn diffinio "service provider" a "relevant provider" fel pe bai iddynt yr ystyron a roddir yn adrannau 55 a 56 o Ddeddf Addysg 2005. Nid yw testun Cymraeg rheoliad 2 yn nodi'r termau Cymraeg cyfatebol er bod "darparydd gwasanaethau" a "darparydd perthnasol" yn cael eu defnyddio am "service provider" a "relevant provider" e.e. yn rheoliad 3 a 4. [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Gellir cywiro'r mân wall drafftio uchod drwy Femorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Nodwyd pwyntiau mewn perthynas â'r fformat i'w cywiro wrth gyhoeddi'r Rheoliadau a thynnwyd sylw'r cyfreithiwr drafftio atynt.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 7 Tachwedd 2006